Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref MAL/VG/0242/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

1 Mehefin 2018

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Mehefin.

Cynhaliwyd Cyfnod 2 o'r broses ddeddfwriaethol rhwng 14 Mawrth a 3 Mai 2018. Er na chytunwyd ar unrhyw welliannau i'r Bil yn ystod y cyfnod hwnnw, ac nad oes newidiadau wedi'u gwneud i fwriad polisi'r Bil ers ei gyflwyno ym mis Hydref 2017, gwelwyd nifer o ddatblygiadau allweddol yn ymwneud â'r cynnig arfaethedig i gyflwyno isafbris uned am alcohol yng Nghymru – ac mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig. Maent yn cynnwys:

- Dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Scotch Whisky Association and others* v *The Lord Advocate and another* [2017] UKSC 76 lle dyfarnodd y Llys yn unfrydol o blaid Llywodraeth yr Alban, gan gynnal deddfwriaeth yr Alban a dod i'r casgliad bod gosod isafbris uned yn ffordd gymesur o fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Amlinellir hyn yn Adran 3 o'r Memorandwm Esboniadol.

- Gweithgarwch arolygu a gorfodi: y cytundeb i ddarparu £300,000 i Benaethiaid Safonau Masnach Cymru er mwyn ariannu gweithgarwch arolygu a gorfodi yn ystod y tair blynedd cyntaf o weithredu. Roedd amcangyfrifon ar gyfer y cyllid hwn wedi'u nodi yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Opsiwn Tri yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, adeg cyflwyno'r ddogfen roedd y trafodaethau'n parhau â Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru ynghylch y cyfanswm i'w ddyrannu a'r proffilio cysylltiedig. Mae hyn wedi'i gytuno bellach. Bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu £200,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf (rhagwelir mai 2019/20 fydd hynny ar hyn o bryd), £70,000 yn ystod yr ail flwyddyn (2020/2021) a £30,000 yn y drydedd flwyddyn (2021/2022).

- Costau diweddaraf Llywodraeth Cymru: yng ngoleuni'r cyllid ar gyfer y gweithgarwch arolygu a gorfodi, mae cyfanswm costau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu yn unol â hynny – i £0.8 miliwn dros y pum mlynedd cyntaf o weithredu. Mae costau gweinyddu Llywodraeth Cymru yn ystod y pum mlynedd cyntaf o weithredu yn cynnwys y canlynol: £6,900 ar gyfer datblygu canllawiau; £1,800 ar gyfer dylunio'r canllawiau; £100,000 ar gyfer cyfathrebu; £6,000 ar gyfer hyfforddi swyddogion gorfodi; £350,000 ar gyfer y gwerthusiad a £300,000 ar gyfer gweithgarwch arolygu a gorfodi.

- Yr wybodaeth ddiweddaraf am wledydd penodol: mae Adran 3 o'r Memorandwm Esboniadol, a'r wybodaeth am wledydd penodol, hefyd wedi'u diweddaru, er mwyn nodi'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf ar effeithiau cynyddu (neu leihau) pris alcohol ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae hyn wedi'i ddiweddaru'n benodol i ystyried unrhyw ymchwil perthnasol newydd a / neu newidiadau cysylltiedig i'r polisi.

- Datblygiadau polisi ehangach: eto, yn Adran 3, mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i ystyried datblygiadau polisi ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Caiff y rhain eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol ac yn Opsiynau 1 a 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- Data newydd ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol: yn Adran 3, mae'r data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch nifer y marwolaethau a nifer y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol hefyd wedi'u diweddaru. Mae'r Memorandwm Esboniadol bellach yn cynnwys data ar gyfer 2016.

- Y dadansoddiad diweddaraf o fodelau effaith cyflwyno isafbris uned yng Nghymru: yn ogystal â'r uchod, roedd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref yn cynnwys dadansoddiad o effeithiau gosod isafbris uned yng Nghymru gan Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield yn 2014. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad o'r dadansoddiad hwn ym mis Gorffennaf 2017 ac roedd yn seiliedig ar ystod o ddata newydd (gan gynnwys data ar lefelau yfed alcohol o Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017). Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ym mis Tachwedd 2017 ac yna'r adroddiadau terfynol a oedd yn cynnwys y dadansoddiad diweddaraf ar gyfer Cymru ym mis Chwefror 2018. Nid yw canfyddiadau allweddol y modelu a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield wedi newid. Mae'r holl ffigurau yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â'r modelu a gynhaliwyd yn 2014 wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r dadansoddiad diweddaraf.

- Treth: roedd dadansoddiad diweddaraf Sheffield hefyd yn cynnwys dadansoddiad newydd o'r cynnydd i'r dreth ar alcohol a fyddai'n ofynnol er mwyn cyflawni yr un canlyniadau ag y byddai gosod isafbris uned o 50c fel enghraifft. Cynhaliwyd y

dadansoddiad gyda'r bwriad o sicrhau yr un gostyngiadau i'r lefelau yfed a nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol ymysg y grŵp targed. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol diweddaraf.

Yn ogystal â diweddaru'r ffigurau ar gyfer yr enghraifft o 50c a ddefnyddir at ddibenion asesu'r effeithiau, y costau cysylltiedig a'u manteision, mae Atodiad newydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Atodiad yn rhoi amcangyfrifon o effaith isafbris uned ar lefelau enghreifftiol gwahanol o 45c i 60c ar ystod o ganlyniadau iechyd, troseddau ac absenoldebau o'r gwaith ynghyd ag effeithiau ar refeniw manwerthwyr a'r Trysorlys.

Caiff yr effaith ar gyfanswm y costau cymdeithasol hefyd eu cynnwys. Fel y gwyddoch, nid yw lefel yr isafbris uned at ddibenion y Bil wedi'i phennu eto. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn defnyddio'r lefel yn y modelu a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield fel enghraifft, sy'n amcangyfrif os byddai'n cael ei osod ar lefel o 50c y byddai'n arwain at leihau'r niwed iechyd, nifer y troseddau a'r absenoldebau o'r gwaith gan arbed £783m (ym mhrisiau 2016) dros yr 20 mlynedd yn y model.[1] Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau gofal iechyd uniongyrchol (£91m); arbedion wrth i'r lefelau troseddu leihau (£188m); arbedion wrth i'r absenoldebau o'r gweithle leihau (£14m) a phrisiad ariannol o'r manteision iechyd (£490m) a fesurwyd o ran blynyddoedd oes wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALYs).

Bydd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael eu gosod erbyn dydd Mawrth 5 Mehefin cyn trafodion Cyfnod 3 sydd wedi'u trefnu i'w cynnal ar 12 Mehefin.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

[1] Mae'r holl gostau a manteision ym Model Sheffield sy'n gysylltiedig â chyfnod o 20 mlynedd wedi'u gostwng 3.5%.